


Archifau byd natur fel her a chyfle digidol

Dr Andreas Weber: Athro Cynorthwyol, Prifysgol Twente (MB-STePS)

Yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwnaed sawl ymdrech i ddisgrifio, dosbarthu a rheoli adnoddau naturiol lleol Ynysfor Indonesia. Arweiniodd y gwaith hwn at lunio nifer fawr o adroddiadau manwl ar dyfu cnydau gwerthu a gwella diwydiannau, ond hefyd at greu casgliadau unigryw sy'n cofnodi planhigion ac anifeiliaid cyfoethog ac amrywiol yr ardal. Yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf, mae llawer o'r llawysgrifau, lluniadau a sbesimenau hyn wedi cael eu digido ac fe'u storir bellach ar weinyddion amgueddfeydd byd natur yr Iseldiroedd, yr Almaen, Lloegr a Ffrainc. Sut bynnag, oherwydd eu cymeriad cymysgryw a strwythur cymhleth, nid yw casgliadau o'r fath erioed wedi cael eu datgelu, eu rhyng-gysylltu a'u cyd-destunoli'n llawn.

Er mwyn mynd i'r afael â'r her hon, mae'r prosiect treftadaeth ddigidol cydweithiol *Making Sense of Illustrated Handwritten Archives* yn datblygu amgylchedd digidol uwch-dechnolegol cyfeillgar i'r defnyddiwr a fydd yn hwyluso gwaith haneswyr, biolegwyr a churaduron sydd â diddordeb mewn treftadaeth byd natur wedi'i digido a threftadaeth llawysgrifenedig ddarluniedig.



Enghraifft o nodyn maes darluniedig gan y naturiaethwr Almaenig Heinrich Boie (1797-1827). Casgliad y Naturalis Biodiversity Center, NNM001001061_020. Delwedd yn rhydd o gyfyngiadau hysbys o dan gyfraith hawlfraint (Nod Parth Cyhoeddus 1.0).

Mae'r prosiect *Making Sense* yn rhoi sylw arbennig i archif Pwyllgor Byd Natur India'r Iseldiroedd, menter gasglu ar raddfa fawr a ariannwyd gan y brenin Isalmaenig Willem I. O 1820 hyd 1850 bu aelodau'r Pwyllgor yn gwneud teithiau helaeth drwy Ynysfor Indonesia, gan greu casgliad unigryw o ddogfennau llawysgrifenedig, sbesimenau a darluniau. Yn ogystal â bwrw golwg cyffredinol dros y prosiect, bydd fy narlith yn trafod y cyfleoedd, peryglon a goblygiadau ehangach sydd ynghlwm wrth gymhwyso system adnabod delweddau (geiriau) a thechnegau digidol eraill yng nghyd-destun casgliadau llawysgrifenedig darluniedig wedi'u digido.

Llun o ystlum wedi'i dynnu â llaw. Casgliad y Naturalis Biodiversity Center, NNM001000762_003. Delwedd yn rhydd o gyfyngiadau hysbys o dan gyfraith hawlfraint (Nod Parth Cyhoeddus 1.0).



Sbesimen o Ystlum Ffrwythau Sunda (*Acerdon macklotii*) a gasglwyd gan H. Boie ac H.C. Macklot ar Timor (1828/29). Cafodd y ffotograff ei greu gan Henk Caspers (© Naturalis Biodiversity Center), trwyddedwyd o dan CC-BY-SA 4.0.